

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Pontrobert

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Pontrobert yn lle hapus, cartrefol a hynod weithgar lle mae holl gymuned yr ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus ac mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn. Mae'r pennaeth, aelodau'r corff llywodraethol a'r holl staff yn cydweithio'n agos ac effeithiol er mwyn gwella'r darpariaeth er lles y disgyblion. Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o'u milltir sgwâr, ei hanes a'i thraddodiadau. Mae'r disgyblion yn arddangos balchder yn eu treftadaeth ac yn mwynhau dysgu am enwogion yr ardal, a'u gosod mewn cyd-destun ehangach.

Mae medrau llafar y disgyblion yn gryfder, ac mae medrau darllen ac ysgrifennu'r disgyblion yn datblygu'n dda iawn. Mae diwylliant cryf o hyrwyddo llafar wedi gwreiddio'n gadarn yn yr ysgol, gyda'r disgyblion yn mynegi eu hunain yn hyderus a gyda lefel dda o gywirdeb. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu i safon uchel, ac erbyn brig yr ysgol maent yn creu amrywiol ffurfiau yn aeddfed iawn. Mae eu medrau rhifedd yn gadarn ac maent yn defnyddio offer a meddalwedd digidol yn effeithiol i gefnogi eu gwaith.

Mae'r holl ddisgyblion hŷn yn aelodau o wahanol grwpiau disgyblion sy'n cefnogi eu cymheiriaid i ddeall pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg, a'u cefnogi i fagu hyder wrth ddefnyddio offer digidol. Mae hyn yn creu ymdeimlad cryf o berthyn.

Mae perthynas waith gefnogol iawn i'w gweld rhwng yr oedolion a'r disgyblion ac mae hyn yn adeiladu hyder y disgyblion yn llwyddiannus. Mae eu hymddygiad yn ardderchog, ac maent yn arddangos agweddau arbennig o gadarnhaol at eu dysgu. Maent yn awchu am wneud eu gorau, ac yn dyfalbarhau pan fydd tasgau'n eu herio.

Nodwedd arbennig o waith yr ysgol yw'r modd y mae'r athrawon yn datblygu cyfleoedd i'r disgyblion ddethol amrywiol weithgareddau sy'n magu eu hannibyniaeth yn llwyddiannus. Mae'r gwaith hwn yn fodd i'r disgyblion ddatblygu eu medrau, ac awgrymu sut yr hoffent ddehongli'r tasgau. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n unigolion medrus ac annibynnol.

Mae'r ysgol yn cynnig amrediad effeithiol o gefnogaeth i gynnal lles disgyblion, ac yn cynnal eu anghenion dysgu'n llwyddiannus.

# Argymhellion

**A1 Darparu cyfleoedd amserol i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn datblygu eu gwaith ymhellach**

# Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu cwricwlwm sy’n annog annibyniaeth ac ymglymiad disgyblion, i’w lledaenu ar wefan Estyn.



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Pontrobert |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 54 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 40 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | Nid oes dosbarth Meithrin yn yr ysgol |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 97.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2012 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 08/12/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 26/06/2023 |
| Mae Ysgol Pontrobert wedi ehangu'n sylweddol o ran niferoedd disgyblion yn ddiweddar. Mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi mewn gwaith adeiladu yn yr ysgol sydd bellach yn cynnwys tri dosbarth. | |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  29/08/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.